Datganiad Ariannol Cryno 2014

PRINCIPALITY
CYMDEITHAS ADEILADU

ADRODDIAD CRYNO'R CYFARWYDDWYR

Datganiad Ariannol Cryno Cymdeithas Adeiladu'r Principality ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014

Crynodeb yw'r datganiad ariannol hwn o'r wybodaeth yn y Cyfrifon Blynyddol a archwiliwyd, Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r Datganiad Busnes Blynyddol, a bydd pob un o'r rhain ar gael i Aelodau ac adneuwyr am ddim ym mhob un o swyddfeydd Cymdeithas Adeiladu'r Principality ac ar y rhyngrwyd yn www.principality.co.uk o 9 Ebrill 2015.

Cymeradwywyd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 10 Chwefror 2015 a llofnodwyd ar ei ran gan:

Laurence Philip Adams
Cadeirydd

Graeme H. Yorston
Prif Weithredwr y Grŵp

Stephen Hughes
Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp

ADOLYGIAD Y CADEIRYDD O'R FLWYDDYN

Strategaeth a pherfformiad

Mae'r Principality wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall. Mae ein hymroddiad parhaus i ddarparu cartref diogel i gynilwyr a chynhyrchion morgeisi deniadol i fenthycwyr wedi helpu i gynhyrchu canlyniadau ariannol cryf unwaith eto. Ein prif strategaeth yw canolbwyntio ar y Gymdeithas graidd, trwy gynyddu ein benthyciadau morgeisi manwerthu a gwella ein cynnig cyffredinol ar gyfer Aelodau. Er mwyn gwireddu ein strategaeth, rydym yn ymdrechu i roi gwasanaeth o'r radd flaenaf i'n Haelodau ac mae canlyniad teg i'n Haelodau yn ganolog i bopeth a wnawn. Cynyddodd ein hasedau 2.9% i £7.3 biliwn ac ehangwyd ein presenoldeb ar y stryd fawr drwy agor asiantaeth arall yng Nghas-gwent. Ni yw'r gymdeithas adeiladu fwyaf yng Nghymru o hyd, a'r 6ed cymdeithas adeiladu fwyaf yn y DU.

Mae'n ymddangos y bydd cyfraddau llog yn parhau'n isel yn y dyfodol rhagweladwy ac rydym yn gwybod bod hyn yn her i gynilwyr. Rydym yn talu cyfraddau cystadleuol sydd wedi bod yn uwch na chyfartaledd y farchnad yn gyson. Yn ogystal â'n perfformiad ariannol, rydym hefyd yn cefnogi ein cymunedau mewn mwy o ffyrdd nag erioed. Mae adran Aelodau, Cydweithwyr a'r Gymuned yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn rhoi mwy o fanylion ynglŷn â'r gwaith ardderchog yr ydym wedi bod yn ei wneud eleni yn y cymunedau lle'r ydym yn byw ac yn gweithio.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr a phenodiadau allweddol

Mae'r Bwrdd wedi gweld nifer o newidiadau dros y 12 mis diwethaf, ac un o'r rhai mwyaf arwyddocaol oedd ymadawiad Dyfrig John, cyn-Gadeirydd y Gymdeithas. Mae gan Dyfrig flynyddoedd maith a nodedig o brofiad yn y gwasanaethau ariannol, yn y DU a thramor, a hoffwn ddiolch iddo am ei gyfraniad a'i arweiniad cryf yn ystod y cyfnodau economaidd cythryblus diweddar.

Rydym wedi ffarwelio hefyd â Langley Davies, cyfarwyddwr anweithredol, a Guy Thomas (y Cyfarwyddwr Cyllid yn flaenorol, a Phrif Swyddog Gweithredu'r Grŵp yn ddiweddar a Phrif Weithredwr ein his-gwmni, Nemo Personal Finance Limited) a roddodd y gorau i'w swyddi ar y Bwrdd. Treuliodd Langley naw mlynedd fel cyfarwyddwr anweithredol yn y Grŵp ac ymddeolodd Guy ar ôl gwasanaethu ar y Bwrdd am 11 mlynedd. Eto, hoffwn ddiolch i'r ddau am eu cyfraniad sylweddol iawn i lwyddiant y Gymdeithas dros flynyddoedd lawer.

Rwyf yn falch o ddweud bod penodiadau allweddol wedi eu gwneud er mwyn cynnal cryfder eich Bwrdd a'r tîm rheoli gweithredol.

Ymunodd Derek Howell â'r Bwrdd ym mis Ebrill a bydd yn sefyll etholiad am y tro cyntaf yn 2015. Mae Derek yn gyfrifydd cymwysedig a chyn-bartner yn PwC ac mae ganddo brofiad helaeth yn y sector.

Yn ogystal, mae'r tîm rheoli gweithredol wedi ei atgyfnerthu trwy benodi Alan Jarman i swydd Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp a Phrif Swyddog Gweithredol Nemo Personal Finance Limited. Mae gan Alan flynyddoedd lawer o brofiad yn y sector bancio manwerthu, gydag HSBC yn fwyaf diweddar, lle'r oedd yn gweithio mewn nifer o swyddi uwch yn y DU a thramor.



Cangen Casnewydd yn rhoi gliniaduron i Ganolfan Blant Forest

Aelodau, cymuned a threftadaeth

Yn y Principality, mae ein Haelodau wrth galon popeth a wnawn. Mae ein rhwydwaith o ganghennau ac asiantaethau'n cyfnerthu ein sefyllfa fel un o brif frandiau'r stryd fawr ledled Cymru a'r gororau, ac yn ein galluogi i ddiwallu anghenion ein Haelodau wyneb yn wyneb ac yn ein canolfan gyswllt ac ar-lein. Trwy wrando a gweithredu ar adborth ein Haelodau, gallwn sicrhau ein bod yn parhau i allu cyflwyno'r cynhyrchion a'r gwasanaethau y mae eu heisiau a'u hangen ar ein Haelodau. Yn ystod 2014, yn ogystal â'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, cynhaliwyd tri digwyddiad Fforwm Aelodau a thri digwyddiad Adborth Aelodau, sy'n rhoi cyfle i'n Haelodau gyfarfod ein cyfarwyddwyr a phobl allweddol yn ein busnes. Trwy wrando ar ein Haelodau gallwn sefydlu cynlluniau i sicrhau y byddwn yn parhau i ateb y galw mewn byd lle mae technoleg yn newid yn gyflym. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn hyn ar gyfer y dyfodol, ac mewn datblygu cynhyrchion sy'n diwallu anghenion ein Haelodau.

Mae ein haelodau staff yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod ein busnes yn gwneud gwahaniaeth i'n cymunedau ac i economi Cymru. Rwy'n falch iawn bod eu hymdrechion wedi cael eu cydnabod yn 2014 pan enillodd y Gymdeithas bum gwobr fawreddog a chael cymeradwyaeth uchel neu ail mewn pedair gwobr arall. Er bod nifer o sefydliadau ariannol mawr eraill wedi dechrau canolbwyntio ar y gymuned yn 2014, rydym yn ymfalchïo yn y ffaith inni fod yn weithredol yn ein cymunedau ers blynyddoedd lawer. Rydym ni wedi parhau i gryfhau'r gwreiddiau cymunedol hynny yn 2014 trwy fentrau megis dyddiau cymunedol mewn ysgolion, parciau cenedlaethol a chronfeydd bwyd yn ogystal â thrwy gefnogi timau chwaraeon a chorau lleol, i enwi dim ond ychydig.

Roedd 2014 hefyd yn flwyddyn o ddathlu 10 mlynedd o gefnogaeth i Uwchgynghrair y Principality yn ogystal â'n cefnogaeth barhaus i ddigwyddiadau a grwpiau eraill ledled Cymru a'r gororau. Enillodd y Principality hefyd y wobr am Gefnogaeth Tymor Hir yng Ngwobrau Celf a Busnes Cymru, gan gydnabod ein 35 mlynedd o nawdd i'r Eisteddfod Genedlaethol, sy'n ddigwyddiad allweddol yn y calendr cenedlaethol.



Cymdeithas MS Cymru oedd Elusen y Flwyddyn yn 2014 a thrwy amrywiaeth eang o weithgareddau mae'n bleser gennyf ddweud bod ein haelodau staff wedi codi dros £86,000. Hoffwn ddiolch i'n holl aelodau staff a'n Haelodau

am gymryd rhan a chefnogi'r digwyddiadau hyn er mwyn codi swm anhygoel i gynorthwyo pobl sydd â Sglerosis Ymledol yng Nghymru.

Rhagolygon 2015

A hithau'n flwyddyn etholiad yn y DU, gydag ansicrwydd o hyd yn y rhagolygon economaidd byd-eang a phrisiau olew yn gostwng, bydd mwy o heriau economaidd yn ein hwynebu yn 2015 heb os nac oni bai. Fodd bynnag, rwy'n credu y bydd y Principality mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r heriau hyn oherwydd ein trefniadau rheoli cryf ar gyfer hylifedd a chyfalaf. Rydym yn ystyriol o effaith cynnydd yng nghyfradd Banc Banc Lloegr ar ein cynilwyr a'n benthycwyr a byddwn yn parhau i geisio sicrhau ein bod yn aros yn gystadleuol ac yn darparu'r safonau gwasanaeth uchel yr ydym ni wedi eu darparu erioed. Byddwn yn ymhelaethu ar strategaeth y Gymdeithas yn Adolygiad Prif Weithredwr y Grŵp ac yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Fel Cadeirydd, fy mlaenoriaeth yw sicrhau bod buddiannau ein Haelodau yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r penderfyniadau a wneir. Gobeithiwn barhau i ddatblygu'r Gymdeithas er mwyn inni allu helpu mwy o bobl i fwynhau manteision cydfuddianoldeb a gwella ein cynhyrchion a'n gwasanaethau. Bydd hynny'n golygu bod modd inni wneud cyfraniad sylweddol i bobl ac economi Cymru yn 2015 ac yn y dyfodol.

Laurence Philip Adams
Cadeirydd
10 Chwefror 2015

Tîm rygbi dan 9 oed Treforys yn derbyn dillad chwaraeon gan eu cangen leol o'r Principality.

ADOLYGIAD PRIF WEITHREDWR Y GRŴP O'R FLWYDDYN

Cafodd Grŵp y Principality 12 mis llwyddiannus arall, gyda thwf sefydlog. Rydym wedi ein rhoi ein hunain mewn sefyllfa gref i gyflawni'r targedau a osodwyd yn ein strategaeth pum mlynedd ar gyfer twf a gyhoeddwyd yn 2012.

Yn 2014, rydym wedi adeiladu ar ein hegwyddorion craidd o ddarparu cartref diogel i gynilion ein cwsmeriaid a helpu pobl i brynu eu cartrefi, a pharhau i ddarparu gwasanaeth cryf i gwsmeriaid ar yr un pryd. O ganlyniad i hyn, cafodd y Gymdeithas ei henwi'r darparwr cynilion a argymhellwyd fwyaf yng Nghymru* am yr ail flwyddyn yn olynol.

Eleni rydym hefyd wedi cynyddu ein hasedau i £7.3 biliwn (2013: £7.1 biliwn) a chynyddu ein balansau morgeisi manwerthu net i £4.8 biliwn (2013: £4.5 biliwn), yn ogystal â rhoi hwb i'n presenoldeb ar y stryd fawr trwy agor ein 71ain safle.

Rydym wedi parhau i ddatblygu'r busnes er mwyn sicrhau ei fod mewn sefyllfa gref i dyfu mewn modd cynaliadwy, a sicrhau ar yr un pryd bod ein model busnes yn sefydlog ac yn gofalu am anghenion ein Haelodau.

Yn 2014, dangosodd asiantaeth statws credyd Moody's Investors Service ei ffydd yn y Principality hefyd, trwy ein huwchraddio a dyfarnu rhagolygon cadarnhaol inni. Mae hyn yn arwydd o farn yr asiantaeth am ansawdd credyd y Gymdeithas, ac yn dangos ei hyder bod y Gymdeithas yn parhau i fod yn ddiogel i'n perchnogion, ein Haelodau.

Rydym hefyd wedi cofnodi mwy o elw nag erioed, cyn tynnu treth, ar ein gweithrediadau sy'n parhau ar gyfer y flwyddyn yn 2014, sef £53.5 miliwn (2013: £28.2 miliwn). Bydd hyn yn gymorth inni gadw'r busnes yn ddiogel wrth i'r galw am gyfalaf gan reoleiddwyr yn y DU ac Ewrop gynyddu. A ninnau'n gymdeithas adeiladu gydfuddiannol, rhaid inni gael cydbwysedd rhwng anghenion ein cynilwyr a'n benthycwyr, a'r angen i wneud elw i'r busnes. Ar hyn o bryd, elw cynyddol yw'r unig ffordd y gall y Gymdeithas greu mwy o gyfalaf i'w fuddsoddi yn y tymor hir, a diogelu'r Gymdeithas a'n Haelodau yn y dyfodol. Mae elw'r flwyddyn yn cynnwys credyd untro o £10.1 miliwn sy'n gysylltiedig â'n cynllun pensiwn a £10.5 miliwn sy'n gysylltiedig â gwerthu Peter Alan. Trafodir hyn yn fanwl yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Busnesau'r Grŵp

Mae busnesau'r Grŵp yn dal yn rhan bwysig o'n strategaeth ac eleni cafodd ein dau fusnes arall flwyddyn gadarnhaol wrth iddynt wynebu heriau newydd yn y farchnad a threfniadau rheoleiddio newydd.

Eleni penderfynwyd gwerthu Peter Alan, ein hasiantaeth dai, a threfnu contract allanol ar gyfer ein gwaith arolygu gyda'r asiantaeth dai a'r darparwr gwasanaethau eiddo blaenllaw, Connells Group, am ystyriaeth o £16.4 miliwn. Ni wnaed hyn ar chwarae bach ond roeddem yn teimlo mai dyma'r penderfyniad gorau i'r Grŵp ac i Peter Alan, a fydd yn cael ffynnu dan berchennog sy'n arbenigwr yn y maes asiantaethau tai. Rhoddwyd gwerth sylweddol i'n Haelodau, a llwyddwyd hefyd i leihau

cymhlethdod, gan ganiatáu i reolwyr y Gymdeithas ganolbwyntio ar gyflawni'r strategaeth ar gyfer y gymdeithas adeiladu graidd.

Mae ein busnes benthyciadau gwarantedig, Nemo Personal Finance Limited, yn parhau i wneud yn dda o safbwynt ariannol, gan wneud elw iach am flwyddyn arall, er i'r cyfanswm ostwng i £13.9 miliwn (2013: £16.4 miliwn). Mae hyn wedi digwydd o ganlyniad i'r gystadleuaeth gynyddol yn y farchnad ac o ganlyniad i'r gwaith i gryfhau mantolen Nemo Personal Finance Limited, ond rydym yn hyderus y bydd yn parhau i gynnal busnes llwyddiannus gyda phresenoldeb cryf yn y farchnad ail arwystl.

Y llynedd mynegais fy marn ein bod wedi troi cornel o ran y farchnad fasnachol, ac ar ôl rhai blynyddoedd heriol yn y sector hwn roedd yn galonogol gweld bod Principality Masnachol, ein cangen fasnachol, wedi gwneud elw yn 2014. Ynghyd â mwy na £100 miliwn mewn benthyciadau newydd yn y 12 mis diwethaf, hon fu ei blwyddyn fwyaf llwyddiannus ers i'r dirywiad economaidd ddechrau. Bu Bwrdd y Gymdeithas yn adolygu'r cynllun tymor canolig ar gyfer yr adran yn ddiweddar ac mae o'r farn bod ganddi ran gredadwy i'w chwarae yn ein dyfodol. Un o'r prif resymau am hynny yw'r gwerth y mae'n ei gynnig i'r economi leol o ran prosiectau datblygu. Cefnogwyd nifer o gynlluniau cyffrous trwy'r flwyddyn yn ein tiriogaeth graidd. Rydym wedi rhoi cymorth i ddatblygwyr adeiladu cartrefi mawr eu hangen i bobl Cymru mewn mannau megis Saundersfoot, Bae Langland, Merthyr Tudful a Chaerdydd.

Twf cadarn fu hanes y Gymdeithas dros y 12 mis diwethaf, ac rydym wedi cadw ein strategaeth yn gadarn ar y trywydd iawn a chadw'r Aelodau wrth galon y busnes bob amser er mwyn sicrhau buddion hirdymor ar eu cyfer nhw a'r cymunedau lle'r ydym yn byw ac yn gweithio.

UCHAFBWYNTIAU ALLWEDDOL

- **Y darparwr cynilion a argymhellwyd fwyaf yng Nghymru***
- **Cynyddu ein hasedau i £7.3 biliwn (2013: £7.1 biliwn)**
- **Balansau o £4.8 biliwn ar gyfer morgeisi manwerthu net (2013: £4.5 biliwn)**
- **Elw llog net o 1.87% (2013: 1.68%)**
- **Agor ein 71ain safle yng Nghymru a'r gororau**
- **Cael ein huwchraddio a dyfarnu rhagolygon cadarnhaol inni gan Moody's Investors Service**
- **Cynyddu elw cyn treth ar weithrediadau sy'n parhau i £53.5 miliwn (2013: £28.2 miliwn)**

Helpu pobl i gartrefi

Gwelwyd y newid mwyaf yn y farchnad forgeisi ers 2004 yn ystod y 12 mis diwethaf, yn sgil cyflwyno'r Adolygiad o'r Farchnad Morgeisi. Mae'r newidiadau'n gofyn i gwsmeriaid ddarparu llawer mwy o fanylion i ddangos y gallant fforddio'r morgais, ac mae'n rhaid cynghori'r cwsmeriaid wrth werthu morgeisi wyneb yn wyneb a thros y ffôn erbyn hyn. Fel darparwr benthyciadau cyfrifol, rydym wedi bod yn gweithredu'n unol â nifer o'r newidiadau ers cryn amser, ond nid oes amheuaeth bod y newidiadau wedi gwneud ein busnes yn fwy cymhleth. Ymddengys y bydd newidiadau'n parhau i ddigwydd ac y bydd trefniadau rheoleiddio'n effeithio ar ein busnes am flynyddoedd lawer felly rhaid peidio â gorffwys ar ein rhwyfau. Ond, mae'r Gymdeithas wedi llwyddo i weithredu'r newidiadau diweddar er mwyn sicrhau bod ein busnes morgeisi'n parhau i ffynnu.

UWCHRADDIAD MOODY'S

* Ffynhonnell: Arolwg Ymchwil Ariannol GfK NOP, 12 mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2014, sgôr NPS ar gyfer 2,357 o gwsmeriaid cyfrifon cynilo yng Nghymru. Mae'r rhestr o gystadleuwyr yn cynnwys y canlynol: Barclays, Halifax, HSBC, Lloyds Bank, NatWest, Nationwide, NS&I, Santander, TSB

Eleni, rydym ni wedi helpu mwy na 2,300 o bobl i brynu eu cartref cyntaf. Rydym yn sylweddoli bod amgylchiadau pobl yn newid yn gyson a bod angen iddynt newid cynhyrchion ac edrych ar opsiynau eraill o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau diogelwch ariannol. Rydym yn ymroddedig i'w cynorthwyo yn hyn o beth, a byddwn yn parhau i edrych ar y cynhyrchion a gynigiwn er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ein cwsmeriaid wrth iddynt newid.

Darparu gwerth i'n Haelodau teyrngar

Mae cyfraddau llog i fenthycwyr wedi cael eu gorfodi'n is oherwydd cystadleuaeth yn y farchnad forgeisi, ac o ganlyniad uniongyrchol i hyn mae'r cyfraddau ar gyfer cyfrifon cynilo hefyd wedi bod yn gostwng. Mae'r newid cyfochrog hwn yn y cyfraddau'n bwysig i'r sefydliadau sy'n darparu benthyciadau er mwyn sicrhau bod y busnes yn parhau'n broffidiol a diogel.

Rydym yn cydnabod pa mor anodd yw hi i gynilwyr mewn amgylchedd lle mae cyfraddau llog yn parhau'n isel, ac rydym wedi rhoi nifer o fentrau ar waith er mwyn helpu i liniaru'r effaith. Ar y llaw arall, ni allwn weithredu ar ein pen ein hunain nac yn groes i dueddiadau'r farchnad gan fod angen inni sicrhau bod ein busnes morgeisi yn ogystal â'n busnes cynilion yn ddiogel. Mae cynilwyr yn hanfodol i'r Principality a daw 91.4% o'r arian y byddwn yn ei roi mewn benthyciadau ganddynt hwy.

** Ffynhonnell: Cronfa Ddata'r Farchnad Cyfrifon Cyfredol a Chynilo CACI (CSDB).

❖ Mae di-dreth yn golygu nad ydych chi'n talu Treth Incwm y DU na Threth ar Enillion Cyfalaf ar y llog yr ydych yn ei ennill. Mae trefniadau trethi'n dibynnu ar eich amgylchiadau unigol a gallent newid yn y dyfodol.

† Ystyr AER yw Cyfradd Gyfwerth Flynyddol ac mae'n dangos beth fyddai'r gyfradd llog pe byddai llog yn cael ei dalu a'i adlogi unwaith y flwyddyn.

YR HYN YR YDYM NI WEDI EI WNEUD I HELPU CYNILWYR

- **Cynnydd o £218 miliwn yn y balansau cynilion yng Nghymru yn 2014.**
- **Talu cyfradd llog o 1.63% ar gynilion Aelodau yng Nghymru ar gyfartaledd, o'i chymharu â chyfartaledd y farchnad o 1.37%**.**
- **Aelodau â Chyfrif Cynilo Addewid wedi elwa ar gyfradd o hyd at 2.00% AER†, un o'r cyfraddau gorau ar y stryd fawr ar gyfer y math hwn o gynnyrch.**
- **Yn 2014, mae Aelodau ag ISA Addewid wedi elwa ar gyfradd ddi-dreth❖ o hyd at 2.30% AER†.**
- **Yn 2014 cyfeiriwyd at y Principality 465 o weithiau mewn Tablau Cynhyrchion Gorau ar gyfer cynilion a morgeisi.**



Syrcas Gymunedol NoFit State a noddir gan y Principality

Staff y Principality'n gweithio wrth y cownter yn Eisteddfod Llanelli

Yn 2014, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn y stryd fawr gan ddathlu 50 mlynedd ers agor canghennau Amwythig a Henffordd yn ogystal ag agor ein 18fed asiantaeth (71ain safle) yng Nghas-gwent, ar adeg pan fo sefydliadau eraill yn gadael y stryd fawr. Mae nifer y trafodion a wneir mewn canghennau'n lleihau ledled y diwydiant, ac nid ydym ninnau ddim gwahanol, ond rydym yn adnabod budd canghennau ac asiantaethau ochr yn ochr â buddsoddiad parhaus yn holl sianeli'r busnes fel bod cwsmeriaid yn gallu ymdrin â ni ym mha bynnag fodd y dymunant. Er hynny, rydym yn eithriadol o ymwybodol y bydd yn rhaid gwneud buddsoddiad ychwanegol sylweddol yn ein busnes er mwyn aros yn berthnasol a bodloni anghenion cenedlaethau i ddod.

Rydym hefyd wedi dal gafael ar ein safle fel y darparwr cynilion a argymhellwyd fwyaf yng Nghymru* eleni, gan amlygu lefelau nodedig ein gwasanaeth yn ein canghennau a'n canolfan gyswllt. Rydym yn arbennig o falch o hyn, yn ogystal â'n gwaith yn y gymuned yng Nghymru a'r gororau. Fel busnes, mae'r Principality wastad wedi cyfrannu amser ac arian i gyfoethogi ei chymunedau lleol, er mwyn gwneud ein rhan i sicrhau bod modd iddynt ffynnu. Eleni, rydym wedi ehangu'r ymrwymiad hwnnw, gan roi dros 1,600 o oriau o weithgarwch gwirfoddol gan aelodau staff a buddsoddi dros £40,000 yn ein cymunedau lleol trwy nawdd. Cafwyd cydnabyddiaeth i'r ymrwymiad hwn, ac enillodd y Gymdeithas amrywiaeth o wobrau cymunedol eleni gan gynnwys gwobr Benthyciwr Mawr - Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol a Gwasanaethau Cymunedol yng Ngwobrau'r Mortgage Finance Gazette ar gyfer 2015.

*Ffynhonnell: Arolwg Ymchwil Ariannol GfK NOP, 12 mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2014, sgôr NPS ar gyfer 2,357 o gwsmeriaid cyfrifon cynilo yng Nghymru. Mae'r rhestr o gystadleuwyr yn cynnwys y canlynol: Barclays, Halifax, HSBC, Lloyds Bank, NatWest, Nationwide, NS&I, Santander, TSB

Paratoi ar gyfer y dyfodol

Mae economi'r DU yn dangos arwyddion cynyddol o adferiad cynaliadwy ond mae'r farchnad ehangach yn Ewrop a thu hwnt yn dal i ddangos lefel o ansicrwydd. Wedi dweud hynny, rwyf yn disgwyl y bydd twf yn parhau yn y DU a mwy o bobl mewn gwaith. Mae cyflogau wedi dechrau codi'n gyflymach na phrisiau ac mae cyfraddau llog wedi bod yn 0.5% ers dros bum mlynedd, gan roi amser i'r economi dyfu.

Wedi nifer o flynyddoedd anodd, bydd cynilwyr yn gobeithio y bydd cyfraddau llog yn dechrau gwella yn 2015. Ond â'r arwyddion diweddaraf yn dangos bod chwyddiant yn gostwng, mae'n annhebyg y bydd Llywodraethwr Banc Lloegr yn codi'r cyfraddau tan o leiaf drydydd chwarter 2015, neu efallai hyd yn oed 2016.

Er y dylai cystadleuaeth gynyddu yn sgil newid mewn cyfraddau llog ac wrth i sefydliadau newydd ddod yn rhan o'r farchnad, yn anffodus i gynilwyr, nid wyf yn credu y bydd cyfraddau cynilion yn codi mor gyflym ag y byddent yn ei obeithio. Mae'r berthynas rhwng cyfradd sylfaenol y banc a chyfradd cyfrifon cynilo wedi ei chwalu ac mae'n rhaid i sefydliadau reoli'r gwahaniaeth rhwng y ddwy gyfradd er mwyn sicrhau eu bod hefyd yn gallu cynnig cyfraddau morgais cystadleuol a bod ganddynt ddigon o gyfalaf i sicrhau bod y busnes yn ddiogel. Yn anffodus nid yw'r bwlch yn gynaliadwy, a phan fydd y cyfraddau'n codi mae'n annhebyg y bydd sefydliadau ariannol yn trosglwyddo'r cynnydd yn llawn i'r cwsmeriaid. A dweud y gwir, rydym wedi gweld nifer o sefydliadau ariannol yn gostwng eu cyfraddau llog ar gyfrifon cynilo yn 2014 yn sgil erydiad y gwahaniaeth hwn, ac nid oes modd i ninnau osgoi hyn ychwaith os ydym ni am gadw'r Gymdeithas yn ddiogel.

Gobeithiwn y bydd 2015 yn rhoi mwy o gyfle i ni yn y Principality dyfu a dangos gwerth ein model cydfuddiannol, gan barhau i fod yn ddarbodus a sicrhau bod arian ein Haelodau'n ddiogel.

Dros 150 mlynedd yn ôl, sefydlwyd y Gymdeithas i helpu pobl i brynu eu cartrefi ac i ddiogelu eu cynilion. Dyma ein diben craidd hyd heddiw, a bydd ein sefydlogrwydd ariannol, ein penderfyniad i gyflawni ein strategaeth ar gyfer twf yn y dyfodol, a'n pwyslais ar ein cwsmeriaid yn sicrhau ein bod yn gallu cefnogi ein cwsmeriaid am flynyddoedd lawer i ddod.

Graeme H. Yorston
Prif Weithredwr y Grŵp
10 Chwefror 2015

Staff y Principality'n helpu i weddnewid y gerddi yn Ysgol Gyfun Bryn Celynog, Beddau.

DATGANIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL

i Aelodau ac Adneuwyr Cymdeithas Adeiladu'r Principality ar y Datganiad Ariannol Cryno ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014

Yn unol ag Adran 76 o Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986, rydym wedi archwilio'r Datganiad Ariannol Cryno ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014. Mae hwn yn cynnwys y Datganiad Incwm cryno, y Datganiad o Incwm Cydnabyddedig a'r Fantolen ynghyd ag Adroddiad cryno'r Cyfarwyddwyr.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Aelodau'r Gymdeithas yn unig, fel corff, yn unol ag adran 76(5) o Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu Aelodau'r Gymdeithas am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu amdanynt yn adroddiad yr archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd eithaf yr hyn a ganiateir dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb tuag at unrhyw un ac eithrio'r Gymdeithas ac Aelodau'r Gymdeithas fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a ffurfiwyd gennym.

Prif gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr a'r archwilwyr

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Datganiad Ariannol Cryno, yn unol â chyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig.

Ein cyfrifoldeb ni yw eich hysbysu chi am ein barn ar gysondeb y Datganiad Ariannol Cryno a'r Cyfrifon Blynyddol llawn, y Datganiad Busnes Blynyddol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr, ac i ba raddau y mae'n cydymffurfio â gofynion perthnasol Adran 76 o Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 a rheoliadau a wnaed yn unol â hi.

Cynhaliwyd ein gwaith yn unol â Bwletin 2008/3 a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae ein hadroddiad ar Gyfrifon Blynyddol y Gymdeithas yn disgrifio sail ein barn archwilio ar y datganiadau ariannol hynny.

Barn

Yn ein barn ni, mae'r Datganiad Ariannol Cryno yn gyson â'r Cyfrifon Blynyddol, y Datganiad Busnes Blynyddol ac Adroddiad Cyfarwyddwyr Cymdeithas Adeiladu'r Principality ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014 ac yn cydymffurfio â gofynion perthnasol Adran 76 o Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 a'r rheoliadau a wnaed yn unol â hi.

Deloitte LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
Caerdydd, y Deyrnas Unedig
10 Chwefror 2015

DATGANIAD ARIANNOL CRYNO'R GRŴP

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014

Datganiad incwm

	2014 £m	2013 Wedi'i ail-nodi• £m
Gweithrediadau sy'n parhau:		
Llog derbyniadwy net	133.8	116.4
Incwm a thaliadau eraill	6.6	12.0
Treuliau gweinyddol	(64.7)	(65.3)
Darpariaethau lleihad mewn gwerth	(13.5)	(22.4)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	(8.7)	(12.5)
Elw gweithredu	53.5	28.2
Enillion eraill	-	-
Elw ar gyfer y flwyddyn cyn treth o weithrediadau sy'n parhau	53.5	28.2
Treth	(11.7)	(6.2)
Elw ar gyfer y flwyddyn o weithrediadau sy'n parhau	41.8	22.0
Elw ar gyfer y flwyddyn o weithrediadau a ddaeth i ben	10.5	0.2
Elw ar gyfer y flwyddyn	52.3	22.2

Datganiad o incwm cynhwysfawr arall

	2014 £m	2013 Wedi'i ail-nodi• £m
Elw ar gyfer y flwyddyn	52.3	22.2
Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu'n ddilynol fel elw a cholled:		
Colledion actiwaraidd ar ymrwymiadau buddiannau ymddeol	(1.6)	(4.3)
Treth incwm	0.4	0.4
Eitemau y gellid eu hailddosbarthu yn ddilynol fel elw a cholled:		
Elw/(colled) ar asedau sydd ar gael i'w gwerthu	7.1	(8.2)
Treth incwm	(1.5)	1.8
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	56.7	11.9

• Wedi ei ail-nodi i adlewyrchu'r ffaith bod gweithrediadau a ddaeth i ben wedi'u hailddosbarthu.

Mantolen

	2014 £m	2013 £m
Asedau		
Asedau hylifol	1,037.4	1,042.1
Morgeisi	6,139.9	5,904.6
Asedau sefydlog ac asedau eraill	87.7	111.4
Cyfanswm asedau	7,265.0	7,058.1
Ecwiti a rhwymedigaethau		
Cyfranddaliadau	5,613.0	5,562.6
Benthyciadau	1,001.7	902.8
Rhwymedigaethau eraill	67.9	58.4
Ymrwymiadau buddiannau ymddeol	6.9	17.1
Cyfalaf wedi'i danysgrifio	71.9	70.2
Rhwymedigaethau isradd	92.3	92.3
Cronfeydd wrth gefn	411.3	354.7
Cyfanswm ecwiti a rhwymedigaethau	7,265.0	7,058.1

CRYNODEB O GYMAREBAU ARIANNOL ALLWEDDOL

ar 31 Rhagfyr 2014

	2014 %	2013 %
Cymhareb cyfalaf cyffredin Ecwiti Haen 1	18.2	16.9
Cymhareb hyfywedd	22.5	20.2
Cymhareb trosoledd	5.0	4.6
Asedau hylifol fel canran o gyfranddaliadau a benthyciadau	15.7	16.1
Elw ar gyfer y flwyddyn fel canran o gyfanswm yr asedau	0.72	0.31
Treuliau rheoli fel canran o gymedr cyfanswm yr asedau	0.90	0.95

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014

Ar ran y Bwrdd, rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar gyfer 2014 sy'n nodi ein Polisi Cydnabyddiaeth ac yn darparu ar gyfer ein Haelodau fanylion y cyflogau sylfaenol, tâl amrywiol a buddiannau a enillwyd gan ein cyfarwyddwyr yn y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2014.

Nod ein Polisi Cydnabyddiaeth yw sicrhau bod cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cyd-fynd â strategaeth y Bwrdd, sef cyflwyno'r canlyniadau gorau i'n Haelodau a sicrhau bod y busnes yn cael ei redeg yn ddiogel ac yn llwyddiannus.

Rydym yn adolygu'r Polisi Cydnabyddiaeth yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni i'r Gymdeithas a'i Haelodau. Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r Pwyllgor wedi gwneud nifer o newidiadau pwysig i'r modd y gweithredir ein Polisi, er enghraifft trwy atgyfnerthu pa mor bwysig yw cyflawni canlyniadau teg i Aelodau a chwsmeriaid wrth gyfrifo tâl amrywiol, a thrwy leihau'n sylweddol uchafswm y dyfarniad tâl amrywiol y gellid ei dderbyn.

Mae'r Pwyllgor yn dal i gredu bod polisi tâl amrywiol sy'n gysylltiedig â pherfformiad ac sy'n cael ei reoli'n ofalus yn llesol i'r Gymdeithas a'r Aelodau. Mae'n gwobrwyo pobl am gyflawni targedau anodd a osodir gan y Bwrdd bob blwyddyn fel bod y gydnabyddiaeth yn cyd-fynd â chanlyniadau, ond mae'n golygu hefyd y gellir lleihau costau os bydd ein perfformiad ariannol yn dirywio, am ba bynnag reswm. Ar yr un pryd, mae'r Pwyllgor yn effro i'r risgiau sy'n deillio o ddyfarniadau tâl amrywiol gormodol ac mae hynny'n un rheswm pam y mae'r Pwyllgor wedi gosod lefel y gydnabyddiaeth amrywiol yn is na lefel y grŵp cymharol o brif gymdeithasau adeiladu, ac yn llawer is na sefydliadau ariannol mawr eraill.

Staff y Principality'n helpu i lanhau traeth Cefn Sidan

Staff y Principality ar daith gerdded MS Society Cymru ar lwybr arfordirol y Mileniwm

Mae'r tîm arweinyddiaeth gweithredol wedi sicrhau perfformiad da eto eleni. Mae rheolaeth gadarn a manteision strategaethau a roddwyd ar waith yn ystod blynyddoedd blaenorol wedi golygu bod y Gymdeithas mewn sefyllfa ariannol gadarn sy'n allweddol i sicrhau bod cynilion yr Aelodau'n ddiogel a bod ein cynhyrchion a'n gwasanaethau yn gystadleuol ac yn cynnig gwerth gwirioneddol. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod polisïau cydnabyddiaeth priodol, fel y'u crynhoir yn yr Adroddiad hwn ar gyfer 2014, wedi cyfrannu at y canlyniad boddhaol hwn.

Penderfyniadau allweddol 2014 a dyfarniadau amrywiol blynyddol

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol yn unig ac mae ganddo awdurdod wedi'i ddirprwyo gan y Bwrdd i adolygu a chymeradwyo Polisi Cydnabyddiaeth y Gymdeithas, i gymeradwyo cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol ac (mewn ymgynghoriad â Phrif Weithredwr y Grŵp) cydnabyddiaeth yr uwch reolwyr. Y Pwyllgor sydd hefyd yn goruchwylio cydnabyddiaeth yr holl aelodau staff eraill sydd â swyddogaeth berthnasol mewn cysylltiad â phroffil risg y Gymdeithas. Mae'n cymeradwyo'r holl gynlluniau tâl amrywiol yn ogystal â thargedau perthnasol, ac yn adolygu'r cynigion ar gyfer cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd, er mwyn eu hargymell i'r Bwrdd eu cymeradwyo.

Yn 2014, penderfynodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth y dylai cyflog sylfaenol y cyfarwyddwyr gweithredol (ac eithrio Prif Weithredwr y Grŵp a Chyfarwyddwr Risg y Grŵp) gynyddu 2.25%. Roedd y cynnydd hwn yn cyfateb i'r codiad cyflog cyfartalog a ddyfarnwyd i'r cydweithwyr eraill i gyd yn y Grŵp.

Penodwyd Graeme Yorston i swydd Prif Weithredwr Grŵp y Gymdeithas ym mis Medi 2012 ac ni chafodd ei gyflog sylfaenol ei adolygu yn 2013. Comisiynodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth adroddiad gan yr ymgynghorwyr cydnabyddiaeth, New Bridge Street, a chytunwyd, ar sail eu hargymhelliad, y byddai cyflog sylfaenol Prif Weithredwr y Grŵp yn cynyddu 8% i £335,000, o 1 Ionawr 2014, ac na fyddai'n cael ei adolygu eto tan fis Chwefror 2016. Mae hyn yn golygu mai'r cynnydd blynyddol cyfartalog yng nghyflog sylfaenol Prif Weithredwr y Grŵp dros y tair blynedd, rhwng 2012 a 2015, yw 2.7%.

Staff y Principality'n codi arian i Elusen y Flwyddyn, MS Society Cymru

Ym mis Chwefror 2014 adolygwyd cydnabyddiaeth Michael Jones, Cyfarwyddwr Risg y Grŵp, o ystyried bod ei gyfrifoldebau wedi cynyddu'n sylweddol. Ar ôl adolygu lefel y gydnabyddiaeth ar gyfer y swyddogaeth allweddol hon ar draws y sector, cytunodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth i gynyddu ei gyflog sylfaenol 24%, i £230,000. Mae'n bwysig nodi nad yw Cyfarwyddwr Risg y Grŵp yn cymryd rhan mewn unrhyw gynllun tâl amrywiol, o ystyried ei gyfrifoldebau arbennig.

Gan droi at dâl amrywiol, uchafswm y dyfarniad tâl amrywiol blynyddol i'r cyfarwyddwyr gweithredol i gyd (ac eithrio Cyfarwyddwr Risg y Grŵp) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014 oedd 40% o'r cyflog sylfaenol. Mae 20% o'r cyflog sylfaenol yn daladwy pan fydd perfformiad yn "cyflawni'r targed" a byddai hynny'n golygu canlyniad boddhaol iawn i'r Gymdeithas a'r Aelodau. Mae tâl amrywiol yn seiliedig ar ddau fesur ariannol allweddol a dau fesur boddhad cwsmeriaid allweddol ac mae'n ddibynnol ar gyflawni amcanion personol yn ogystal â bodloni metrigau ariannol critigol ar gyfer sefyllfa risg, cyfalaf a hylifedd cyffredinol y Gymdeithas.

Cyfrifwyd dyfarniadau tâl amrywiol y cyfarwyddwyr gweithredol ar sail elw cyn treth, ac eithrio'r eitemau eithriadol sydd wedi codi o ganlyniad i werthu Peter Alan a'r newid a wnaed i'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a gaewyd. Mae'r Pwyllgor wedi cymeradwyo tâl amrywiol o 29.5% o'r cyflog sylfaenol yn 2014, a chaiff hanner hwn ei ohirio am flwyddyn i bawb ar wahân i Graeme Yorston a Guy Thomas. Cytunodd y Pwyllgor y dylai Guy Thomas, a ymddeolodd ar 31 Hydref 2014, dderbyn tâl pro rata am y 10 mis yr oedd yn y swydd yn 2014. Yn unol â'r Cod Cydnabyddiaeth, bydd 40% o ddyfarniad Graeme Yorston a Guy Thomas yn cael ei dalu yn 2015 gyda'r 60% o'r tâl amrywiol sy'n weddill yn cael ei dalu mewn rhandaliadau cyfartal dros y tair blynedd ddilynol. Gellir gostwng neu ddiddymu unrhyw gydnabyddiaeth sy'n cael ei gohirio os yw'n ymddangos, am unrhyw reswm, ei bod wedi'i chyfrifo ar sail anghywir, neu am unrhyw reswm arall yn

ôl disgresiwn y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Defnyddiodd y Pwyllgor y disgresiwn hwn yn 2014 a byddwn yn parhau i sicrhau na thelir y dyfarniad gohiriedig ond pan fydd perfformiad y Grŵp yn y blynyddoedd dilynol yn cadarnhau hynny.

Mae mwy o wybodaeth am gyflog sylfaenol a dyfarniadau tâl amrywiol y cyfarwyddwyr gweithredol wedi ei nodi yn adran Cydnabyddiaeth yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Ymddeolodd Dyfrig John fel Cadeirydd ar ôl Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2014 a phenodwyd ei olynydd, Laurence Adams, ar ôl proses ddethol drylwyr. Fel rhan o'r broses hon, cafodd lefel y ffi ar gyfer y swydd hon ei meincnodi yn erbyn yr un swydd yn y grŵp cymharol o brif gymdeithasau adeiladu, a chytunodd y Bwrdd i gynyddu'r ffi flynyddol 18%, i £110,000. (Er gwaethaf y cynnydd hwn, y ffi sy'n daladwy i'n Cadeirydd yw'r isaf yn ein grŵp cymharol).

Edrych ymlaen

Ni fydd agwedd y Pwyllgor tuag at gydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol a'r uwch reolwyr yn 2015 yn wahanol iawn i 2014. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu ein polisi cydnabyddiaeth cyffredinol, yn enwedig yng ngoleuni gofynion rheoleiddio a newidiadau eraill sy'n cael eu rhoi ar waith yn y sector gwasanaethau ariannol yn fwy cyffredinol. Wedi dweud hynny, byddwn yn ymdrechu bob amser i sicrhau bod ein polisi cydnabyddiaeth yn cynhyrchu fframwaith gwobrwyo i'r busnes sydd mor syml â phosibl, sy'n gystadleuol ac, yn arbennig, sy'n rhoi pwyslais ar drefniadau cadarn ar gyfer rheoli risg.

Staff y Principality'n dysgu Iaith Arwyddion Prydain er mwyn gallu cyfathrebu'n well â chwsmeriaid

Bydd cyflogau sylfaenol y cyfarwyddwyr gweithredol (ac eithrio Prif Weithredwr y Grŵp) yn cael eu pennu ym mis Chwefror 2015 ar yr un pryd â'r cydweithwyr eraill i gyd. Gostyngwyd uchafswm y dyfarniad tâl amrywiol potensial i gyfarwyddwyr gweithredol o 100% i 40% o'r cyflog sylfaenol yn 2013. Bydd yn aros yr un fath eleni, ac 20% o'r cyflog sylfaenol fydd y dyfarniad am gyflawni'r targedau heriol a osodir i'r busnes gan y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor yn fodlon y bydd y targedau a osodwyd ar gyfer 2015 yn sbarduno gwelliant cynaliadwy sylweddol ym mherfformiad y Grŵp.

Mae'r Principality wedi ymrwymo i arfer gorau yn y maes llywodraethu corfforaethol, ac o'r herwydd rydym yn darparu manylion llawn taliadau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr ac yn gofyn i Aelodau gymeradwyo'r Adroddiad Cydnabyddiaeth trwy bleidlais gynghorol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Mae Adroddiad 2014 yn cynnwys gofynion datgelu allweddol Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac yn dilyn arfer gorau'r sector yn ogystal â chydymffurfio â gofynion rheoleiddio, gan gynnwys Cod Cydnabyddiaeth yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus yn arbennig.

Ar ran Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd, rwy'n hapus i argymell Adroddiad 2014 i'r Aelodau ei gymeradwyo yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Nigel Annett
Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae mwy o wybodaeth am gydnabyddiaeth ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon llawn sydd ar gael yn ein canghennau ac ar-lein yn: www.principality.co.uk

Myfyrwyr o Ysgol Gyfun Llanilltyd Fawr yn cyflwyno'u syniadau mewn digwyddiad 'Dragons' Den' a gynhaliwyd gan y Principality

SEFYDLWYD 1860

Rheoleiddir gan yr Awdurdod
Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod
Rheoleiddio Darbodus
Aelod o Gymdeithas y Cymdeithasau
Adeiladu

CYFARWYDDWYR

Laurence Adams - Cadeirydd
Graeme H. Yorston
Gordon MacLean
Joanne Kenrick
Menna Richards
Natalie Elphicke
R. Michael Jones
Stephen Hughes
Nigel Annett
Derek Anthony Howell (penodwyd 1 Ebrill 2014)
Dyfrig John (ymddiswyddodd 17 Ebrill 2014)
Langley Davies (ymddiswyddodd 24 Hydref 2014)
W. Guy Thomas (ymddeolodd 31 Hydref 2014)

UWCH DÎM RHEOLI

David Cunningham-Jones
Peter Hughes
Susan Lane
Elaine Morris
Julie-Ann Haines
Alan Jarman

IS-GWMNI

Nemo Personal Finance Limited
Prif Weithredwr:
Alan Jarman

Cymdeithas Adeiladu'r Principality
Blwch Post 89,
Adeiladau'r Principality
Heol y Frenhines
Caerdydd
CF10 1UA

Rhif ffôn 0330 333 4000
www.principality.co.uk

Caiff Cymdeithas Adeiladu'r Principality ei hawdurdodi gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus, rhif cyfeirnod 155998